

# HYFFORDDIANT AR-LEIN I GYNGHORWYR

DEALL IECHYD A DIOGELWCH

# BETH SYDD AR GAEL?

Paratowyd y deunyddiau hyfforddiant ar-lein i'ch cynorthwyo chi i ddatblygu eich corff o wybodaeth fel Cynghorydd.

Mae'r deunyddiau'n trafod 7 maes penodol, ac mae 'lechyd a Diogelwch' yn un ohonynt. Mae'r deunyddiau eraill yn ymwneud â Chynefino, y Cod Ymddygiad, y Cyngor yn Gyflogydd, Deall y Gyfraith, Cyllid Llywodraeth Leol ac Amrywiaeth a Chynhwysiant.

# RHOI CYCHWYN ARNI

Mae'r modiwl hwn yn trafod 'Iechyd a Diogelwch' ac mae'n mynd trwy'r elfennau allweddol canlynol:-

- ▶ Sut i reoli iechyd a diogelwch o fewn eich Cyngor
- ▶ Deddfwriaeth berthnasol y dylech wybod amdanynt
- ▶ Yr angen am berson 'cymwys' i gynnal rhai tasgau iechyd a diogelwch
- ▶ Damweiniau, Rhoi Gwybod ac Ymchwilio
- ▶ Aseidiadau Risg
- ▶ Ffynonellau Cyngor

# PWRPAS Y MODIWL

Yw eich helpu i ddeall:-

- ▶ Prif gyfrifoldebau'r Cyngor o ran iechyd a diogelwch
- ▶ Pwysigrwydd sicrhau amgylchedd gwaith diogel
- ▶ Manteision cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch

# TRI RHESWM ALLWEDDOL DROS REOLI'N DDIOGEL

**Moesol** – Effeithiau damwain ar y dioddefwyr, gorfod rhoi gwybod i'r teulu/oedd am anafiadau difrifol neu hyd yn oed farwolaethau

**Ariannol** – Y posibilrwydd y gallai'r dioddefydd golli enillion, colledion i'r Cyngor, delio â cheisiadau yswiriant, penodi staff newydd

**Cyfreithiol** – Yr angen i ddangos eich bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth/dangos eich bod wedi parchu'r ddyletswydd gofal – erlyniad posib gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch

# BETH SY'N EICH ARWAIN?

- ▶ Llwyth o ddeddfwriaeth y mae angen ichi wybod amdanynt, yn enwedig felly os yw eich Cyngor yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau (e.e. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch)
- ▶ Gan ddibynnu ar waith y Cyngor, efallai y bydd angen ichi ystyried trefnu cael cyngor proffesiynol ar iechyd a diogelwch neu hyfforddi rhai o'ch staff i allu gwneud pethau fel cynnal asesiadau risg

Ceir canllawiau ardderchog ar wefan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch - <http://www.hse.gov.uk/>

# MAE'R GYFRAITH YN GOSOD FFINIAU

- ▶ Deddfau Seneddol a Chodau Ymarfer Cymeradwy
- ▶ Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- ▶ Rheoliadau fel Rheoliadau Codi a Chario 1992, Rheoliadau Asbestos 2000 a Chod Rheoli Straen y Gweithgor Iechyd a Diogelwch

Ceir canllawiau ar ddeddfwriaeth ar wefan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch

<http://www.hse.gov.uk/>

# EGWYDDOR 'RHESYMBOL RAGWELADWY'

Mae'r gyfraith yn ceisio bod yn deg trwy fynnu fod eich Cyngor yn gyfrifol am risgiau y gellid eu rhagweld yn rhesymol e.e. os oes digwyddiad ac os oedd yn amlwg fod eich Cyngor yn gwybod am y peryglon allai achosi damwain, mae hynny'n cael ei ystyried yn rhagweldwy a byddai disgwyl i'ch Cyngor fod wedi cymryd rhagofalon priodol i atal y ddamwain.

# DDIM YN RHESYMBOL RAGWELADWY

Os oes damwain wedi digwydd oherwydd ffactorau nad oedd yn amlwg er y cynhaliwyd asesiad risg, ni ellid fod wedi disgwyl i'ch Cyngor wneud unrhyw beth i atal y ddamwain.

Fodd bynnag, bydd rhaid i'ch Cyngor ddangos, os gelwir arno i esbonio, y cymerodd gamau i gynnal asesiad risg ar broses neu weithgaredd.

# TRI PHRAWF SYML I BENDERFYNU A YW RISG YN RHESYMBOL RAGWELADWY

**Gwybodaeth Gyffredin** – Beth allai person ei asesu yn broblem bosib e.e. twll yn y ffordd, bocys heb eu pentyrru'n iawn ac eitemau yn blocio allanfeydd tân

**Gwybodaeth Diwydiant** – Mae hyn yn ymwneud â gwybodaeth gan y gweithgynhyrchwyr e.e. mae'n ymwneud â defnyddio sylweddau fel paent neu ddeunyddiau glanhau

**Gwybodaeth Arbenigol** – Cyngor a dderbyniwyd oddi wrth ymgynghorwyr yn amlygu materion pryderus y dylid eu rheoli ar ôl derbyn y cyngor

# RHAGWELADWY/YMARFEROL?

Mae'n rhaid i'ch Cyngor ofalu fod yr holl risgiau rhesymol ragweladwy yn cael eu hasesu a'u lleihau i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol.

Ystyr rhesymol ragweladwy yw pan gafodd risg ei nodi, ac ar yr amod nad yw costau cymryd camau unioni yn ormodol, fod rhaid cymryd y camau hynny. Os yw'r peryglon a nodir yn cael eu mesur yn rhai risg isel ond fod cost unioni pethau yn ormodol, ni fyddai disgwyl i'r Cyngor gymryd camau o'r fath gan y byddai hynny'n afresymol. Yn gyffredinol, mae'n rhaid i'r Cyngor geisio nodi'r holl risgiau arwyddocaol a chymryd camau unioni pan mae'r risgiau yn gorbwyso'r gost.

# DEDDFWRIAETH

Cychwynnodd y cyfan gyda Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Roedd y ddeddfwriaeth gyffredinol hon yn disgwyl i gyflogwyr ddarparu mynedfa ac allanfa ddiogel i adeiladau; darparu gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant i alluogi pawb i weithio'n ddiogel; darparu peiriannau diogel a'u cynnal a chadw yn iawn; a darparu amgylchedd gwaith diogel.

# DEDDFWRIAETH

Sy'n cefnogi Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 gan gynnwys:-

- ▶ Rheoliadau COSHH 2002 (Rheoliadau Sylweddau sy'n Niweidio Iechyd – mae angen storio a thrin sylweddau peryglus mewn ffordd ddiogel)
- ▶ Rheoliadau Asbestos 2005
- ▶ Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989 (Rheoli'r cyflenwad pŵer trydan yn ddiogel)
- ▶ Gorchymyn Diogelwch Tân 2006 (Casgliad cynhwysfawr o reoliadau yn ymwneud â diogelwch tân mewn adeiladau)
- ▶ Rheoliadau Cymorth Cyntaf 1981 (Gofynion cyfreithiol ar gyfer swyddogion cymorth cyntaf yn seiliedig ar nifer y staff mewn adeiladau)

# Y PERSON CYMWYS

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn galw ar nifer o Gyngorau i drefnu:-

- ▶ Person iechyd a diogelwch cymwys, a gyflogir yn uniongyrchol neu trwy droi at berson allanol
- ▶ Fod ganddynt berson cymwys yn rhywun sy'n aelod achrededig o'r Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (MIOSH)
- ▶ Y bydd person o'r fath yn gallu cyflwyno system iechyd a diogelwch gadarn yn unol â Chanllawiau Iechyd a Diogelwch 65 –

<http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg65>

# A OES ANGEN POLISI IECHYD A DIOGELWCH AR FY NGHYNGOR?

Oes, mae'n gyfreithiol ofynnol (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Adran 2(3)).

Mae'r polisi'n datgan ymrwymiad y Cyngor i iechyd a diogelwch, sut fydd yn cydymffurfio â'i ofynion cyfreithiol a sut fydd yn ceisio gwella'n barhaus yn y maes hwn. Bydd angen hefyd iddo esbonio sut fydd ei gyfrifoldebau yn cael eu rheoli a pha amcanion mae'n eu gosod iddo'i hun yn hynny o beth.

# CYNLLUNIO A GWEITHREDU

## **Aseiad Risg Effeithiol yw'r allwedd.**

- ▶ Ar gyfer pob darn o waith a wneir mae angen cynnal aseiad risg sy'n cadarnhau y cafodd gweithle diogel ei greu ar gyfer y rhai dan sylw e.e. torri gwair, codi sbwriel, ffair bentref ac ati
- ▶ Ar gyfer pob tasg a nodir yn gysylltiedig â swyddogaeth, defnyddio peiriannau neu offer, dylid ysgrifennu'r gweithgareddau unigol i lawr ynghyd â'r peryglon cysylltiol er mwyn penderfynu lefel y risg. Yna bydd angen penderfynu ar wrth-gamau a'u monitro ar amllder yn dibynnu ar lefel y risg

Er mwyn gweld enghraifft o pro forma aseiad risg:

<http://www.hse.gov.uk/pubns/indg163.pdf>

# MONITRO AC ADOLYGU

Mae'r ffyrdd y gall Cyngor fonitro ac adolygu yn cynnwys:-

- ▶ Cynnal archwiliadau (e.e. Cerdded o gwmpas safleoedd y Cyngor ac adrodd ar y canfyddiadau)
- ▶ Sefydlu Pwyllgor Iechyd a Diogelwch i lywio'r gwaith o gydymffurfio â gofynion
- ▶ Ymchwilio damweiniau a digwyddiadau a rhoi gwybod i'r Cyngor am y canfyddiadau (Mae angen cofnodi damweiniau mewn llyfr damweiniau)

# TREFNIADAU HYFFORDDIANT

Ymhlith yr enghreifftiau o hyfforddiant defnyddiol ar gyfer y Cyngor a'i weithwyr mae:-

- ▶ Cyflwyniad i ddiogelwch sylfaenol
- ▶ Rheoli'n ddiogel - hyfforddiant asesiadau risg
- ▶ Codi a Chario
- ▶ Cymorth Cyntaf
- ▶ Tân
- ▶ Rheoli Straen

# MANTEISION FFORDD EFFEITHIOL O YMDRIN AG IECHYD A DIOGELWCH

- ☪ Lleihau damweiniau
- ☪ Cynnal gweithlu iachus
- ☪ Gwella presenoldeb yn y gwaith
- ☪ Lleihau trosiant ymhlith staff
- ☪ Lleihau costau hyfforddi staff newydd
- ☪ Lleihau nifer yr hawliadau anafiadau personol
- ☪ Gwella effeithlonrwydd y gweithlu
- ☪ Lleihau costau yswiriant (neu o leiaf eu hatal rhag codi)
- ☪ Gwella delwedd y Cyngor fel cyflogydd

**Gweithgaredd Dysgu - Os ydych yn credu fod Iechyd a Diogelwch yn ddrud, ceisiwch gael damwain neu salwch i staff!**

**Beth yw costau cudd damwain?**

# COSTAU CUDD DAMWAIN

- ▶ Prynu offer yn lle'r offer a ddefnyddiwyd yn safle'r ddamwain.
- ▶ Amser o'r gwaith aelod/au staff / aelod o'r cyhoedd a anafwyd/sâl/tost.
- ▶ Hyfforddi gweithiwr newydd.
- ▶ Cyflogi staff dros dro.
- ▶ Premiymau yswiriant yn codi. Amser i gynnal ymchwiliad i'r ddamwain.
- ▶ Amser i gael datganiadau tystion.
- ▶ Paratoi adroddiadau o'r ddamwain.
- ▶ Archwiliadau Lleyg.
- ▶ Ymddangosiadau llys.
- ▶ Costau cyfreithiol (gan gynnwys unrhyw ddirwyon a/neu setliadau sifil)

Am bob £1 y mae digwyddiad/damwain yn gostio, amcangyfrifir fod costau anuniongyrchol mor uchel â £30.!!!

# FFYNONELLAU CYNGOR

- ▶ Un Llais Cymru
- ▶ Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
- ▶ ACAS
- ▶ Gweithgor Iechyd a Diogelwch

# BETH AM BROFI EICH HUN

Ceisiwch ateb y canlynol :-

- 1) Beth yw'r tri phrif reswm dros reoli'n ddiogel?
- 2) Sut fydddech chi'n diffinio'r cysyniad o 'resymol ragweladwy'?
- 3) Beth yw'r tri phrawf ar gyfer penderfynu a yw risg yn rhagweladwy?
- 4) Pam fod angen risg asesu swyddogaethau, defnyddio peiriannau neu offer?
- 5) Sut all Cyngor ofalu fod trefniadau iechyd a diogelwch yn cael eu hadolygu a'u monitro?

# BETH NESAF?

Gan fod gennych ddealltwriaeth sylfaenol o Iechyd a Diogelwch erbyn hyn, awgrymir yn gryf y dylech ofyn i'ch Cyngor roi'r cyfle ichi fynd ar gwrs hyfforddiant ar y pwnc yma.

Mae'r hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru yn rhyngweithiol ac mae'n archwilio holl elfennau rôl y Cyngor o ran Iechyd a Diogelwch yn y manylder y byddech yn ei ddisgwyl gan eich corff cynrychioliadol. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle ichi ymgysylltu â Chynghorwyr er mwyn eich galluogi i rannu profiadau a dysgu oddi wrth eich grŵp cymheiriaid.